
Ymgynghoriad ar y newidiadau arfaethedig i amodau trwyddedau darlledu

Ymgynghoriad ar y newidiadau arfaethedig i amodau'r trwyddedau teledu a radio a roddir gan Ofcom o dan Ddeddfau Darlledu 1990 ac 1996

YMGYNGHORIAD:

Dyddiad Cyhoeddi: 10 Medi 2020

Dyddiad Cau ar gyfer derbyn Ymatebion: 8 Hydref 2020

1. Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r newidiadau mae Ofcom yn bwriadu eu gwneud i amodau'r trwyddedau darlledu teledu a radio a gyhoeddir o dan Ddeddfau Darlledu 1990 ac 1996, ac yn rhoi cyfle i drwyddedeion wneud sylwadau arnynt.

Fel rhan o'r newidiadau hyn, rydym hefyd yn cynnig dau ddiwygiad i drwyddedau darlledu teledu i adlewyrchu gofynion newydd y Gyfarwyddeb Gwasanaethau Cyfryngau Clyweledol¹ ("AVMSD"), a dull arfaethedig Llywodraeth y DU o'i rhoi ar waith. Mae'n rhaid i'r DU roi'r AVMSD ddiwygiedig ar waith, ac ar ôl diwedd y cyfnod pontio ar gyfer ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd ("yr UE"), bydd hon yn gyfraith yr UE sy'n cael ei dargadw. Bydd ein cynigion ar gyfer trwyddedau teledu hefyd yn adlewyrchu'r ddeddfwriaeth a ddaw i rym ar ôl diwedd y cyfnod pontio cyfredol. Yn olaf, rydym yn ymgynghori ar rai newidiadau eraill i'r holl drwyddedau darlledu.

Drwy gydol yr ymgynghoriad hwn rydym yn cyfeirio'n bennaf at amodau trwydded yn ôl eu henw, yn hytrach na'u rhif. Y rheswm am hyn yw bod rhifau'r amodau trwydded yn amrywio rhwng y gwahanol fathau o drwyddedau darlledu yn aml. Rydym wedi cynnwys rhestr o enwau'r amodau trwydded sy'n cael eu crybwyll gennym yn yr ymgynghoriad hwn, a'r rhif amod trwydded cyfatebol ar gyfer pob math o drwydded, yn Atodiad Un.

¹ Cyfarwyddeb 2010/13/EU Senedd Ewrop a'r Cyngor ar 10 Mawrth 2010 ar gydgyssylltu darpariaethau penodol a bennir yn ôl y gyfraith, rheoleiddio neu weithredu gweinyddol mewn Aelod-wladwriaethau ynghylch darparu gwasanaethau cyfryngau clyweledol.

Beth rydym yn ei gynnig – yn gryno

Newidiadau sy'n deillio o'r AVMSD ddiwygiedig (trwyddedau teledu yn unig)

- Ychwanegu amod trwydded newydd at drwyddedau gwasanaeth cynnwys trwyddedadwy teledu ("TLCS"), gwasanaeth rhaglenni teledu digidol ("DTPS"), gwasanaeth rhaglenni teledu digidol gwasanaethau cyhoeddus ("PS-DTPS"), gwasanaeth rhaglenni teledu digidol lleol ("L-DTPS"), gwasanaethau teledu cyfyngedig ar gyfer digwyddiad ("RTSL-E"), a gwasanaeth ychwanegol teledu digidol ("DTAS"), gan fynnu bod trwyddedigion yn rhoi gwybod i Ofcom am unrhyw newidiadau sy'n effeithio ar bennu awdurdodaeth y gwasanaeth trwyddedig;
- Diwygio'r amod "darpariaeth y gwasanaeth [math o wasanaeth] gan y Trwyddedai" presennol mewn trwyddedau TLCS, DTPS, PS-DTPS, L-DTPS, RTSL-E a DTAS gan ychwanegu gofyniad i drwyddedeion gyhoeddi cadarnhad bod y gwasanaeth yn perthyn i awdurdodaeth y DU, ac enw unrhyw wlad arall yn yr UE neu'r Ardal Economaidd Ewropeaidd y mae'r gwasanaeth yn perthyn i'w hawdurdodaeth, neu roi'r cadarnhad hwn i dderbynwyr y gwasanaeth.

Newidiadau sy'n deillio o Reoliadau Darlledu (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019 (y "Rheoliadau Ymadael") (trwyddedau teledu yn unig)

- Ychwanegu amod trwydded newydd sy'n berthnasol i ddarparwyr Cyfeirydd Rhaglenni Electronig ("EPG"), sy'n mynnu eu bod yn sicrhau bod unrhyw wasanaeth sy'n cael ei restru neu ei hyrwyddo gan eu llwyfan/cyfeirydd, neu y gellir cael mynediad ato drwy'r llwyfan/cyfeirydd, wedi'i drwyddedu'n briodol;
- Ychwanegu amodau trwydded newydd sy'n mynnu bod trwyddedeion yn rhoi gwybodaeth i ddefnyddwyr am gyfansoddiad cyfalafol a sut mae gwasanaethau'n cael eu hariannu;
- Ychwanegu amodau trwydded sy'n nodi pa bryd y bydd rheolau cynnwys y Confensiwn Ewropeaidd ar Deledu Trawsffiniol ("ECTT") yn berthnasol;
- Newidiadau i feini prawf awdurdodaeth yn deillio o'r newid o drefn reoleiddio sy'n seiliedig ar yr AVMSD, i'r un a sefydlwyd gan y Rheoliadau Ymadael;
- Ychwanegu diffiniadau newydd, yn ôl yr angen, at Amod 1 y trwyddedau TLCS, DTPS, PS-DTPS, L-DTPS, RTSL-E a DTAS. Bydd y rhain yn cynnwys:
 - i) diffiniad o'r "ECTT";
 - ii) diffiniad o "Barti'r ECTT";
 - iii) diffiniad o Gyfeirydd Rhaglenni Electronig a Reoleiddir".

Newidiadau eraill rydym yn eu cynnig (pob trwydded gwasanaeth)

- Diwygio geiriad yr amod "force majeure" ym mhob trwydded darlledu i'w gwneud yn glir ei fod dim ond yn cael ei ddefnyddio mewn sefyllfaoedd lle mae'r drwydded wedi cael ei thorri o ganlyniad i amgylchiadau sydd y tu hwnt i reolaeth y trwyddedai;

- Diwygio'r amod "cadw a chynhyrchu recordiadau" ym mhob trwydded darlledu i wneud yn siŵr ei fod yn berthnasol p'un ai a bod Ofcom wedi cael cwyn am safonau ai peidio, i wneud yn siŵr bod recordiadau'n cael eu cadw ar ansawdd darlledu, a'i fod yn addas i'r diben mewn achosion lle mae'r trwyddedai yn ddarparwr Cyfeirydd Rhaglenni Electronig;
- Diwygio'r amod "darparu gwybodaeth i Ofcom yn gyffredinol" i symud rhannau (2) i (5), ((1), (3), (4) a (5) ar gyfer trwyddedau gwasanaeth cyfyngedig systemau dosbarthu sain) i amod "hysbysiadau i Ofcom" newydd;
- Cynnwys amod "hysbysiadau i Ofcom" newydd ym mhob trwydded darlledu, a fydd yn cynnwys y gofynion presennol i drwyddedeion roi gwybod i Ofcom am newid rheolaeth, a diwygiadau i eiriad yr amod presennol i sicrhau ei fod yn berthnasol ym mhob achos;
- Geiriad ychwanegol yn yr atodlen trwydded "dirymu" yn yr holl drwyddedau gwasanaeth darlledu sain analog ("ASPS"), gwasanaeth radio cymunedol ("CR"), gwasanaeth rhaglenni sain digidol ("DSPS"), gwasanaeth radio ychwanegol analog ("AS"), gwasanaeth ychwanegol digidol ("DAS"), gwasanaeth cynnwys trwyddedadwy radio ("RLCS"), trwydded gwasanaeth cyfyngedig tymor hir ("LRSL"), trwydded gwasanaeth cyfyngedig tymor byr ("SRSL"), a thrwydded gwasanaeth cyfyngedig systemau dosbarthu sain ("ADS-RSL"), i adlewyrchu pŵer Ofcom i atal y mathau hyn o drwydded wrth roi sancsiwn;
- Tynnu'r amod "llog ar daliadau hwyr" o bob trwydded darlledu;
- Newid geiriad yr holl drwyddedau darlledu i wneud y geiriad yn niwtral o ran cenedl.

Y camau nesaf

- 1.1 Rydym yn gwahodd sylwadau ar y newidiadau arfaethedig erbyn 5pm ddydd Iau 8 Hydref 2020. Ar ôl i ni ystyried yr ymatebion, rydym yn bwriadu gwneud y newidiadau arfaethedig yn fuan wedyn, a fydd yn dod i rym fel a ganlyn:
 - Newidiadau'r AVMSD: i ddod i rym ar unwaith;
 - Newidiadau'r Rheoliadau Ymadael: i ddod i rym ar ddiwedd y cyfnod pontio;
 - Newidiadau eraill: i ddod i rym ar unwaith.
- 1.2 Ar gyfer trwyddedeion presennol, bydd hyn yn golygu y bydd Ofcom yn rhoi hysbysiad i chi o'r newid i'ch trwydded. Ar gyfer trwyddedeion newydd, bydd y newidiadau yn cael eu gwneud i'r templedi ar ein gwefan a bydd trwyddedeion newydd yn cael y templedi trwydded newydd hyn os byddant yn gwneud cais llwyddiannus am drwydded.

Mae adran trosolwg y ddogfen hon yn grynodedd syml lefel uchel yn unig. Mae'r cynigion rydym yn ymgynghori yn eu cylch a'n rhesymeg ni wedi'u nodi yn y ddogfen lawn.